Dawn Bowden AS/MS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

Drwy ebost: Llywydd@senedd.wales

16 Mawrth 2022

Annwyl Elin,

Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 10 Rhagfyr 2021 ynghylch y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Diogelu rhag Ymafael) ("y Bil") cedwais y penderfyniad ynghylch a ddylid argymell cydsyniad i'r ddarpariaeth pŵer cydamserol a gynhwysir yng Nghymal 1(2) o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cwestiynu ei effaith ar bwerau'r Senedd i wneud deddfwriaeth yn y maes hwn yn y dyfodol. O'r herwydd, roedd yn groes i egwyddorion Llywodraeth Cymru ar bwerau cydamserol.

Yn unol â'n dull polisi, gwnaed nifer o ymdrechion ar lefel swyddogol a gweinidogol (llythyr gweinidogol dyddiedig 25 Ionawr 2022 sydd ar gael ar gais) i ofyn am ddiwygiad i'r Bil, i gynnwys darpariaeth a fyddai'n darparu eithriad o gymhwyso paragraff 11(1)(a) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Roedd hwn yn gais cymhharol syml ac mae nifer o Filiau diweddar y DU wedi cynnwys y cynnig hwn. Gwrthodwyd y cais.

Felly, ysgrifennaf atoch i ddiweddaru'r Senedd bod Llywodraeth y DU, yn anffodus ar 28 Ionawr, wedi cyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Adroddiad Tŷ'r Cyffredin a oedd yn ceisio dileu Cymru o'r Bil. Cytunodd Tŷ'r Cyffredin ar y gwelliannau hyn ac mae'n rhan o'r Bil sydd bellach yn cael ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi. Cynhaliwyd darlleniad cyntaf Yr Arglwyddi ar 31 Ionawr, gydag Ail ddarlleniad yr Arglwyddi wedi'i drefnu ar gyfer 18 Mawrth 2022. O ganlyniad, nid yw'r Bil bellach yn cynnwys darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NS

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr wyf yn siomedig â dull Gweithredu Llywodraeth y DU. Mae effeithiau posibl dileu Cymru o'r Bil yn cynnwys:

1. Efallai na fydd arddangosfeydd teithiol y DU yn gallu cael eu harddangos yng Nghymru
2. Os arddangosir arddangosfeydd teithiol yn y DU, efallai na fydd rhai eitemau o dramor yn cael eu cynnwys yn yr arddangosfa yn ystod ei harhosiad yng Nghymru, gan arwain at arddangosfa o ansawdd is yng Nghymru nag mewn gwledydd eraill
3. Efallai na fydd amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol o rai gwledydd yn benthyg arteffactau i leoliadau Cymru
4. Posibilrwydd o niweidio enw da os ymafaelir mewn eitem sydd ar fenthyg i leoliad yng Nghymru oherwydd diffyg amddiffyniad.

Ar hyn o bryd, o dan adran 134 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 ("Deddf 2007"), mae gwrthrychau diwylliannol ar fenthyg o dramor i amgueddfeydd ac orielau'r DU a gymeradwywyd o dan Ddeddf 2007 yn cael eu diogelu rhag ymafaeliad dan orchymyn y llys am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad y daw'r gwrthrych i mewn i'r DU. Mewn egwyddor, bydd eitemau sydd ar fenthyg i Gymru yn dal i gael eu diogelu o dan y darpariaethau hyn, ond ar adeg ysgrifennu nid oes unrhyw sefydliadau Cymreig cymeradwy ar hyn o bryd sy'n gallu cynnig amddiffyniadau o'r fath.

Mae'r mater hwn wedi tynnu sylw'n glir at yr angen i gynnwys llywodraethau datganoledig yn gynnar yng nghamau drafftio unrhyw Fil ledled y DU. Pwysleisiwyd hyn i swyddogion Llywodraeth y DU.

Credaf fod manteision i Gymru gael ei chynnwys yn y Bil ac rwyf eisoes wedi nodi'r rhain yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Gan na fydd hyn yn digwydd mwyach, rydym yn bwriadu archwilio opsiynau amgen i Gymru. Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd byddwn yn ymgynghori â'r sectorau ac yn ystyried yr angen am ddeddfwriaeth sy'n benodol i Gymru ar hyn a materion eraill sy'n ymwneud â gwrthrychau diwylliannol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a holl Aelodau'r Senedd.

Yn gywir

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a’r Prif Chwip